Pwyllgor Archwilio Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar gyfer Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Adroddiad Blynyddol 2018–2019

1. RHAGAIR

Rydw i'n falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar gyfer Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'n amlinellu cwmpas a chanlyniadau gwaith y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019.

Yn ystod y flwyddyn, cefais fy nghefnogi gan Aelodau Annibynnol, y Barnwr Ray Singh a'r Athro Jane Hopkinson, sy'n cynnig gwybodaeth sylweddol a phrofiad eang i'r Pwyllgor. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddweud ar goedd fy niolchiadau am y cyfraniadau sylweddol a wnaed gan yr Athro Jane Hopkinson yn ystod ei hamser gyda'r Pwyllgor wrth i ni groesawu Mr Phil Roberts fel Aelod Annibynnol o 1 Ebrill 2019.

Mynegaf fy niolchiadau i bob un o Swyddogion y Pwyllgor sydd wedi cefnogi a chyfrannu at y gwaith a gyflawnwyd ac am eu hymrwymiad yn cyrraedd targedau a therfynau amser pwysig. Dymunaf hefyd fynegi fy ngwerthfawrogiad am y cymorth a'r cyfraniad a roddwyd gan Archwilwyr Mewnol PCGC, Gwasanaethau Atal Twyll Lleol a Swyddfa Archwilio Cymru.

Bu nifer yn bresennol yng nghyfarfodydd 2018–19, a bu trafodaethau a heriau adeiladol trwy gydol y flwyddyn. Heb os, mae parodrwydd pob parti i godi materion wedi bod yn nodwedd o waith y Pwyllgor a'i gyfarfodydd cysylltiedig, gan gydnabod diffygion a chynnig awgrymiadau cadarnhaol i helpu i wneud gwelliannau arwyddocaol i wasanaethau, systemau ac arferion gwaith o ddydd i ddydd. Mae'r dull hwn i'w groesawu ac mae'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan y Pwyllgor.

Rydw i'n awyddus i fabwysiadu a hyrwyddo diwylliant sy'n gwella'n barhaus ac, fel Pwyllgor, fe wnaethom barhau i gynnal sesiwn adolygu effeithiolrwydd fer ar ddiwedd pob cyfarfod a chyflwyno cyflwyniadau gwasanaeth perthnasol i'r agenda er mwyn cryfhau ac ymgysylltu â'r broses hon mewn modd arwyddocaol. Mae cyhoeddi papurau'r Pwyllgor yn electronig wedi cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy effeithiol ac wedi helpu i leihau ein heffaith amgylcheddol.



Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'r Pwyllgor yn bwriadu parhau â rhaglen lawn o waith sy'n cwmpasu ystod eang o bynciau a meysydd pwnc fel rhan o'i nod hirdymor i helpu i gryfhau trefniadau llywodraethu PCGC ymhellach, a hynny er mwyn sicrhau canlyniadau cynaliadwy, o safon uchel sy'n werth am arian i GIG Cymru.

Mr Martin Veale JP
Cadeirydd Pwyllgor Archwilio Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar gyfer PCGC

2. CYFLWYNIAD

Mae cylch busnes y Pwyllgor yn rhedeg o gau'r Cyfrifon Blynyddol o un flwyddyn ariannol i'r un nesaf. Mae hyn yn adlewyrchu ei brif rôl o ran datblygu a monitro'r fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd ar gyfer PCGC, sy'n arwain at gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi rolau a swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio ac yn crynhoi'r prif feysydd busnes yr ymgymerwyd â hwy yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn nodi rhai o'r prif faterion y bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio arnynt dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

3. RÔL, AELODAETH, MYNYCHWYR A PHRESENOLDEB Y PWYLLGOR

3.1 RÔL


Mae'r Pwyllgor Archwilio yn rhoi cyngor i Bwyllgor y Bartneriaeth ac yn rhoi sicrwydd iddo ynghylch p'un a oes trefniadau llywodraethu effeithiol yn eu lle drwy gynllun a gweithrediad Fframwaith Sicrwydd Pwyllgor y Bartneriaeth. Mae'r fframwaith hwn yn cefnogi Pwyllgor y Bartneriaeth wrth iddo wneud penderfyniadau a chyflawni ei ddyletswyddau i sicrhau bod PCGC yn gwireddu ei hamcanion, yn unol â'r safonau llywodraethu da sydd wedi'u gosod i GIG Cymru.

Mae system rheolaeth fewnol y sefydliad wedi'i chynllunio i nodi'r risgiau posibl a allai rwystro PCGC rhag cyflawni ei nodau a'i hamcanion. Mae'n gwerthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau, mae'n ystyried yr effaith petaent yn digwydd ac mae'n ceisio eu rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Lle y bo'n briodol, bydd y Pwyllgor yn cynghori Pwyllgor y Bartneriaeth (ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, lle bo hynny'n briodol) a'r Swyddog(ion) Atebol o ran ble a sut y gallai'r Fframwaith Sicrwydd gael ei gryfhau a'i ddatblygu ymhellach.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn cael ei adolygu'n flynyddol ac yn cael ei gynnwys o fewn y Rheolau Sefydlog ar gyfer Pwyllgor y Bartneriaeth ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Gellir gweld manylion y Fframwaith Sicrwydd cyflawn yn **Ffigur 1** trosodd:

Ffigur 1: Fframwaith Sicrwydd Cyflawn



Mae fframwaith cyfreithiol a sicrwydd cyffredinol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn sylfaen i hwn

3.2 Aelodaeth

Gan ystyried cyfrifoldebau llywodraethu penodol a lletya Felindre mewn perthynas â PCGC, mae Pwyllgor Archwilio Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre hefyd yn ymddwyn fel y Pwyllgor Archwilio ar gyfer PCGC. Felly, mae'r un tri Aelod Annibynnol yn aelodau o'r ddau Bwyllgor Archwilio.

3.3 Mynychwyr

Mae gwaith y Pwyllgor yn cael ei lywio gan adroddiadau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, Archwilwyr Mewnol, y Gwasanaeth Atal Twyll Lleol a staff PCGC. Er nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor, caiff archwilwyr a staff allweddol eraill o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a PCGC eu gwahodd i fynychu pob cyfarfod y Pwyllgor Archwilio. Lle bo'n briodol, caiff gwahoddiadau i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor eu hanfon hefyd i staff, lle y mae adroddiadau sy'n ymwneud â'u maes cyfrifoldeb penodol yn cael eu trafod gan y Pwyllgor Archwilio.

3.4 Presenoldeb yn y Pwyllgor Archwilio 2018–19

Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith. Roedd cworwm ym mhob cyfarfod ac roedd nifer dda yn bresennol, fel y dangosir yn **Ffigur 2** isod:

Ffigur 2: Cyfarfodydd a Phresenoldeb Aelodau 2018–19

Yn bresennol	Ebrill 2018	Mehefin 2018	Gorffennaf 2018	Hydref 2018	Ionawr 2019	Cyfanswm
Aelodau'r Pwyllgor						
Martin Veale, Cadeirydd ac Aelod Annibynnol	✓	✓	✓	✓	✓	**5/5**
Ray Singh, Aelod Annibynnol	✓	✓	✓	✓		**4/5**
Yr Athro Jane Hopkinson, Aelod Annibynnol (tan Hydref 2018)	✓	✓	✓	✓	Dim yn berthnasol	**4/4**
Phil Roberts, Aelod Annibynnol (ers Ionawr 2019)	Dim yn berthnasol	Dim yn berthnasol	Dim yn berthnasol	Dim yn berthnasol	✓	**1/1**
Swyddfa Archwilio Cymru						
Cynrychiolydd y Tîm Archwilio	✓	✓	✓		✓	**4/5**
Gwasanaeth Archwilio PCGC						
Cyfarwyddwr Archwilio a Sicrwydd	✓	✓		✓	✓	**4/5**
Pennaeth Archwilio Mewnol	✓	✓	✓	✓	✓	**5/5**
Rheolwr Archwilio	✓	✓	✓	✓	✓	**5/5**
Y Gwasanaeth Atal Twyll						
Arbenigwr Atal Twyll Lleol	✓	✓	✓		✓	**4/5**
PCGC						
Margaret Foster, Cadeirydd PCGC	✓	✓	✓			**3/5**
Neil Frow, Rheolwr Gyfarwyddwr	✓	✓	✓	✓	✓	**5/5**
Andy Butler, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	✓	✓	✓	✓	✓	**5/5**
Peter Stephenson, Pennaeth Cyllid a Datblygu Busnes	✓	✓	✓	✓	✓	**5/5**
Roxann Davies, Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol	✓	✓	✓	✓	✓	**5/5**
Ysgrifennydd PCGC	✓	✓	✓	✓	✓	**5/5**
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre						
Mark Osland, Cyfarwyddwr Cyllid			✓	✓	✓	**3/5**

4. BUSNES Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn darparu elfen hanfodol o fframwaith sicrwydd cyffredinol y sefydliad. Mae wedi gweithredu o fewn ei Gylch Gorchwyl yn unol â'r canllawiau yn Llawlyfr Pwyllgor Archwilio GIG Cymru.

Mae agenda'r Pwyllgor Archwilio yn dilyn fformat safonol yn fras, sy'n cynnwys pedair adran allweddol; Archwilio Allanol, Archwilio Mewnol, Y Gwasanaeth Atal Twyll a 'Rheolaeth Fewnol a Rheoli Risg'. Trafodir y rhain ymhellach isod.

4.1 Archwilio Allanol (Swyddfa Archwilio Cymru)

Mae Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn darparu Datganiad Sefyllfa Archwilio ym mhob cyfarfod, gan grynhoi'r cynnydd yn erbyn ei waith archwilio arfaethedig. Cyflwynwyd yr adroddiadau ychwanegol canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Adroddiad Sicrwydd Swyddfa Archwilio Cymru o Systemau TG y GIG sydd wedi'u Cynnal yn Genedlaethol
- Llythyr Rheoli Swyddfa Archwilio Cymru
- Trefniadau Sicrwydd Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru 2019

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi bod canfyddiadau ei gwaith wedi ei galluogi i ddibynnu ar y gwasanaethau a ddarperir gan PCGC.


4.2 Archwilio Mewnol

Mae Archwilio Mewnol wedi parhau i gefnogi'r sefydliad i ddatblygu a gwella ei fframwaith llywodraethu drwy sicrhau bod y systemau a'r prosesau rheoli presennol yn cael eu hadolygu, bod gwendidau wedi'u nodi, a bod awgrymiadau ar gyfer gwella.

Cynhyrchwyd **19** o adroddiadau Archwilio Mewnol yn ystod 2018 a 19 a chawsant sicrwydd fel a ganlyn:

- Cyflawnodd **7** adroddiad sicrwydd sylweddol
- Cyflawnodd **10** adroddiad sicrwydd rhesymol
- Cynhyrchwyd **2** adroddiad ymgynghorol (lle nad yw sicrwydd yn berthnasol)

Ffigur 3: Adroddiadau Archwilio Mewnol 2018–19 yn ôl Graddfa Sicrwydd



Yn ystod 2018 a 2019, roedd y meysydd a gwmpesir gan raglen waith Archwilio Mewnol yn cynnwys:

- Datganiad Sefyllfa Archwilio Mewnol ym mhob cyfarfod
- Adroddiad Blynyddol a Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol
- Asesiad Ansawdd Allanol i GIG Cymru
- Adroddiad Sicrwydd Ansawdd a Rhaglen Wella
- Cynllun Gweithredu Archwiliad Mewnol
- 19 Adroddiad Archwilio Mewnol, fel y nodir yn **Atodiad A**.

Adroddiad Blynyddol a Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol

 Rhesymol	Gall Pwyllgor y Bartneriaeth fod â **sicrwydd rhesymol** bod y trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny sydd o dan adolygiad, wedi'u dylunio a'u cymhwyso'n effeithiol. Mae angen i reolwyr roi sylw i rai materion sy'n ymwneud â dylunio rheolaeth a chydymffurfiaeth, a fydd ag effaith isel neu gymedrol ar amlygiad risg weddilliol hyd nes eu bod yn cael eu datrys.

Ffigur 4: Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol: Sicrwydd Rhesymol

4.3 Y Gwasanaethau Atal Twyll Lleol

Nod Gwasanaethau Atal Twyll lleol yw sicrhau bod nifer yr achosion o dwyll (a/neu lygredd) yn PCGC mor isel â phosibl. Derbyniwyd adroddiadau rheolaidd gan y Pwyllgor i fonitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Atal Twyll y cytunwyd arno, gan gynnwys y canlynol:

- Diweddariad am gynnydd ym mhob cyfarfod
- Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Atal Twyll 2017–18
- Cynllun Gwaith y Gwasanaeth Atal Twyll 2018–19
- Cyflwyno Adnodd Hunanadolygu'r Gwasanaeth Atal Twyll 2017–18
- Datganiad i'r Wasg y Gwasanaeth Atal Twyll

Fel rhan o'i waith, mae rhaglen flynyddol reolaidd o godi ymwybyddiaeth o dwyll, ac mae nifer o ddyddiau'n cael eu dyrannu a'u cynnwys fel rhan o Gynllun Gwaith y Gwasanaeth Atal Twyll sy'n cael ei gymeradwyo'n flynyddol gan y Pwyllgor Archwilio.

Yn ogystal â hyn, cynhyrchir cylchlythyr chwarterol sydd ar gael i bob aelod o staff ar fewnrwyd PCGC; rhoddir cyhoeddusrwydd i bob achos erlyn llwyddiannus er mwyn cael yr effaith ataliol uchaf.

4.4 Rheolaeth Fewnol a Rheoli Risg

Yn ogystal â'r adroddiadau archwilio yr ymdriniodd y Pwyllgor â hwy yn ystod y cyfnod adrodd, cynhyrchwyd ystod eang o adroddiadau / papurau llywodraethu yn fewnol i'w hystyried gan y Pwyllgor Archwilio gan gynnwys:

***Datganiad Llywodraethu Blynyddol*:** Yn ystod 2018–19 cynhyrchodd PCGC ei Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n egluro'r prosesau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i alluogi PCGC i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Cynhyrchwyd y Datganiad yn dilyn adolygiad o drefniadau llywodraethu PCGC a gynhaliwyd gan Uwch Dîm Rheoli PCGC a'r Pennaeth Cyllid a Datblygu Busnes. Mae'r Datganiad yn dwyn ynghyd yr holl ddatgeliadau sy'n ymwneud â llywodraethu, risg a rheoli ar gyfer y sefydliad.

Tracio Argymhellion Archwilio: Mae'r Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ar weithredu argymhellion archwilio yn brydlon; gydag unrhyw newidiadau a gyflwynwyd yn cael eu herio a/neu eu cymeradwyo gan y Pwyllgor. Yn ystod mis Ebrill 2018, roedd y broses tracio archwilio yn destun adolygiad gan Archwilwyr Mewnol, a darparwyd **sicrwydd sylweddol** ar ei chyfer.

Arolwg Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio: Cynhaliwyd Arolwg Effeithiolrwydd Pwyllgorau dienw ym mis Mai 2019 i gael adborth gan aelodau'r Pwyllgor ar berfformiad a meysydd posibl i'w datblygu. Crëwyd y datganiadau a ddefnyddiwyd yn yr arolwg yn unol â'r canllawiau a amlinellwyd yn Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio'r GIG a'u halinio â'r datganiadau a ddefnyddiwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar gyfer ei Harolwg Effeithiolrwydd.

Cafodd yr arolwg gyfradd ymateb o 91% (10 ymateb) a nododd y canlynol:

- Roedd dros 90% o'r holl ymatebion a dderbyniwyd yn gadarnhaol
- Credai'r ymatebwyr i gyd fod gan y Pwyllgor ddigon o awdurdod ac adnoddau i allu perfformio'i rôl yn effeithiol;
- Roedd pob un o'r rhai a ymatebodd yn credu bod y Pwyllgor yn cyfarfod yn ddigon aml i allu delio â materion a gynlluniwyd, a bod digon o amser ar gyfer cwestiynau a thrafodaeth;
- Roedd pob un o'r rhai a ymatebodd yn cytuno bod yr awyrgylch yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn ffafriol i drafodaethau agored a chynhyrchiol;
- Roedd pob un o'r rhai a ymatebodd yn cytuno bod ymddygiad aelodau a'r rhai a oedd yn bresennol yn gwrtais ac yn broffesiynol, ac
- Roedd pob un o'r rhai a ymatebodd yn cytuno bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau yn brydlon a bod yr adroddiadau yn y fformat iawn ac yn cynnwys yr hyn sydd ei angen i alluogi'r Pwyllgor i gyflawni ei ddyletswyddau o ran rheolaeth fewnol a rheoli risg.

Mae rhestr lawn o'r adroddiadau / papurau mewnol a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio yn 2018–19 ynghlwm yn **Atodiad B** er gwybodaeth.

Amlygodd y canlyniadau feysydd i'w hystyried, a fydd yn ffurfio Cynllun Gweithredu Effeithiolrwydd Pwyllgorau ar gyfer 2019–20, gan gynnwys 70% o ymatebwyr yn croesawu mwy o ddefnydd o feddalwedd papur y Pwyllgor (e.e. iBabs); monitro gweithrediad y camau gweithredu sy'n codi a'r gwersi a ddysgwyd mewn perthynas ag achosion atal twyll; ac asesu ansawdd ac effeithiolrwydd yr Archwiliad Allanol.

4.5 Cyfarfod Preifat gydag Archwilwyr

Yn unol ag arfer da cydnabyddedig, cynhaliwyd cyfarfod preifat ar 6 Chwefror 2019, rhwng aelodau'r Pwyllgor Archwilio, Archwilwyr Mewnol, Archwilwyr Allanol a'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol. Roedd hwn yn gyfle i godi unrhyw faterion o bryder heb gynnwys Gweithredwyr. Ni chododd unrhyw faterion o bryder o'r cyfarfod. Mae'r holl archwilwyr hefyd yn ymwybodol y gallant fynd at y Cadeirydd yn uniongyrchol ar unrhyw adeg gydag unrhyw faterion sy'n eu poeni.

5. CYFATHREBU AC ADRODD AM WAITH Y PWYLLGOR

Mae'r Pwyllgor yn adrodd crynodeb o'r materion allweddol a drafodwyd ym mhob un o'i gyfarfodydd i Bwyllgor y Bartneriaeth ac i Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Felindre trwy 'Adroddiad ar y Prif Bwyntiau'. Yn ogystal, mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn ceisio dwyn ynghyd y gwaith a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd, i adolygu a phrofi Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd PCGC. Mae canlyniad y gwaith hwn wedi helpu i ddangos effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu PCGC ac mae'n sail i'r sicrwydd y gallai'r Pwyllgor ei ddarparu i Bwyllgor y Bartneriaeth ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

6. CASGLIAD AC EDRYCH YMLAEN

Mae gwaith y Pwyllgor Archwilio yn ystod 2018–19 wedi bod yn amrywiol ac yn eang. Mae'r Pwyllgor wedi ceisio chwarae ei ran wrth helpu i ddatblygu a chynnal fframwaith sicrwydd mwy effeithiol, ac mae tystiolaeth o welliannau yng nghanfyddiadau archwiliadau mewnol ac allanol.

Gan edrych ymlaen, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi nodi'r blaenoriaethau canlynol ar gyfer 2019/20:

- Safon uwch o sicrwydd, drwy gryfhau prosesau llywodraethu presennol, yn enwedig mewn perthynas â rheoli risg corfforaethol a mapio sicrwydd;
- Ffocws parhaus ar weithredu argymhellion archwilio yn brydlon; a
- Gwell gwerth am arian a gwella gwasanaethau, drwy gamau i wella'r defnydd o feddalwedd y Pwyllgor i gyhoeddi papurau'n electronig a lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

Atodiad A
Rhestr o Archwiliadau Mewnol a Wnaed a Graddfeydd Sicrwydd

Aseiniad Archwilio Mewnol	Graddfa Sicrwydd 2018–19	Dyddiad a Gyflwynwyd I'r Pwyllgor Archwilio
Gwasanaethau Fferyllol Cyffredinol (gan gynnwys Presgripsiynu)	Sylweddol	09/07/2019
Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol	Sylweddol	09/07/2019
Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol	Sylweddol	09/07/2019
Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol	Sylweddol	09/07/2019
Rheoli Risg a Sicrwydd	Sylweddol	09/04/2019
Camau a gymerwyd mewn ymateb i Adroddiad Ymarfer Mesur Colled Offthalmig *NHS Protect*	Sylweddol	09/04/2019
Llywodraethu Gwybodaeth a Data Cyffredinol (GDPR)	Sylweddol	09/07/2019
Gwasanaethau Cyflogaeth – Gwasanaethau Cyflogres Cymru Gyfan	Rhesymol	05/06/2018
Gwasanaethau Caffael – Cyfrifon Taladwy Cymru Gyfan	Rhesymol	09/07/2019
Cynllunio Parhad Busnes	Rhesymol	09/04/2019
Storfeydd Cwmbrân	Rhesymol	22/01/2019
Cofnodion Meddygol Cleifion	Rhesymol	22/01/2019
Safonau'r Gymraeg	Rhesymol	22/01/2019
Y Gwasanaeth Negesydd Iechyd	Rhesymol	23/10/2018
Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru	Rhesymol	22/01/2019
Rheoli Gwyliau Blynyddol	Rhesymol	22/01/2019
Adolygiadau Ad-dalu Rhent Gofal Sylfaenol	Rhesymol	22/01/2019
Recriwtio a Chadw Staff	Adroddiad Ymgynghori Sicrwydd Ddim yn Berthnasol	09/04/2019
Biwro BACS	Adroddiad Ymgynghori Sicrwydd Ddim yn Berthnasol	23/10/2018
Sylweddol	*7*	
Graddfa Sicrwydd Rhesymol	*10*	
Graddfa Sicrwydd Cyfyngedig	*0*	
Dim Graddfa Sicrwydd	*0*	
Sicrwydd Ddim yn Berthnasol	*2*	
Cyfanswm	**19**	

Atodiad B

Adroddiadau / Papurau Sicrwydd a Gynhyrchir yn Fewnol

Adroddiad/Papur	Pob Cyfarfod	Blynyddol	Fel y Bo'n Briodol
Tracio Argymhellion Archwilio;	✓		
Materion Llywodraethu	✓		
Y Gofrestr Risg Gorfforaethol	✓		
Blaengynllun y Pwyllgor Archwilio	✓		
Hunanasesiad a Chynllun Gweithredu Safonau Iechyd a Gofal		✓	
Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol		✓	
Diweddariad ar Arolwg Effeithiolrwydd, Canlyniadau a Meincnodi y Pwyllgor Archwilio		✓	
Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio		✓	
Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio		✓	
Adolygiad o Reolau Sefydlog Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau (SSPC SOs)			✓
Y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP)		✓	
Datganiad Archwaeth Risg		✓	
Mapio Sicrwydd		✓	
Adroddiad Blynyddol Datganiadau o Fuddiannau		✓	
Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwella Egwyddorion Caldicott Ar Waith (CPIC)		✓	
Polisi Dim Archeb Prynu, Dim Tâl			✓
Trosglwyddo Rheolaeth Gwneud Iawn			✓
Cynllun Gweithredu ac Archwiliad Hyfforddi Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth			✓
Adolygiad Blynyddol 2017–18		✓	
Adroddiad Etifeddiaeth Gwasanaethau'r Gweithlu, Addysg a Datblygu		✓	
Adroddiad ar sut mae Gwasanaethau Caffael yn lleihau stoc warws darfodedig			✓
Cyflwyniadau Gwasanaeth a dderbyniwyd gan y Pwyllgor 2018–19			
Cynllun Tymor Canolig Integredig			✓
Diogelwch Gwybodaeth a Seiber			✓
Parodrwydd Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol			✓
Effeithiolrwydd a Meincnodi y Pwyllgor Archwilio		✓	
Cofnod Staff Electronig (ESR) Rhaglen Hire2Retire			✓